Gwybodaeth i bobl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol

Mae cael teulu a chyfeillion cefnogol yn ffactor pwysig wrth hyrwyddo llesiant troseddwr ac wrth leihau ail-droseddu. Mae llawer o garcharorion yn colli cysylltiad â'u teuluoedd. Mae plant troseddwyr yn grŵp sy'n agored i niwed ac yn aml yn gorfod wynebu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac addysgiadol. Mae troseddwyr ifanc sydd ar remand neu yn cyflawni dedfryd o gaethiwed yn arbennig o fregus a bydd cael cefnogaeth gan y teulu a chyfeillion yn hanfodol yn eu hadferiad a'u hatgyfaniad i'w cymunedau lleol.

Mae gan holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol (SCT) a'u partneriaid, cyfrifoldeb i helpu plant a phobl ifanc a theuluoedd troseddwyr; yn yr achos o blant a phobl ifanc sydd mewn perygl neu mewn angen, mae gan wasanaethau cymdeithasol ac iechyd rhwymedigaeth statudol i ddiogelu eu llesiant.

'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (2004) yw polisi trosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella llesiant pob plentyn a phobl ifanc ac i weithredu Deddf Plant 2004 yng Nghymru. Mae'n gosod allan 7 Nod Craidd ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (UNCRC).

7 nod craidd y Cynulliad yw bod holl blant a phobl ifanc yng Nghymru:

- **yn cael cychwyn cyflym i'w bywydau;**
- **yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysgiadol a dysg;**
- **yn cael yr iechyd gorau posibl yn rhydd oddi wrth gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;**
- **yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;**
- **yn cael gwrandawiad, yn cael eu parchu a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;**
- **yn cael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol;**
- **nad ydynt yn cael eu hanfanteisio trwy dlodi.**

Deddf Plant 2004

Mae Deddf Plant 2004 yn atgyfnerthu'r trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a'i nod yw cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn iach.

Adran 25 – cydweithredu i wella llesiant plant

Mae Adran 25 yn gosod **dyletswydd** ar bob awdurdod lleol i wneud trefniadau i hybu trefniadau cydweithredu rhyngddynt eu hunain a'r asiantaethau sydd yn bartneriaid â hwy, er mwyn cynorthwyo i wella lles plant a phobl ifanc yn eu hardal. Trwy weithredu'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau lleol cydnabod pwysigrwydd rhieni a phobl eraill sy'n gofalu am blant wrth wella lles plant.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar asiantaethau penodol sy'n bartneriaid, i gydweithredu gyda'r awdurdod lleol. Yr asiantaethau hyn yw:

- Awdurdodau'r Heddlu a Phrif Swyddogion yr Heddlu;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Timau Troseddu Ieuenctid;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Cyngor Cenedlaethol ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am arwain sefydlu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc mewn cydweithrediad a'u partneriaid.

Adran 25 – Rhaid i asiantaethau gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod 7 Nod Craidd y Cynulliad yn cael eu darparu. Mae hyn yn golygu cydweithio i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Adran 26 – Cynlluniau i blant a phobl ifanc

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob awdurdod lleol, sy'n gweithio ym Mhartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn paratoi ac yn cyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPhI) unigol ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'r CPPhI yn gynllun strategol 3 blynedd a fydd yn rhoi gweledigaeth strategol, yn datgan blaenoriaethau a gytunwyd er mwyn rhoi cyfeiriad i waith yr holl bartneriaid, yn gosod nodau a gytunwyd ar y cyd ac yn rhoi sail i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Hwn yw'r datganiad allweddol o'r cynlluniau a fwriedir ar gyfer plant a phobl ifanc a bydd yn rhaid i bob cynllun arall fod yn ystyriol ohono.

Daeth Rheoliadau i rym ar 1 Medi 2007 ac fe gyhoeddwyd yr arweiniad cynllunio *'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau'* ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar yr un pryd. Rhaid i'r cynlluniau cyntaf ar gyfer 2008-11 cael eu mabwysiadu erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008.

Rhaid i'r CPPhI:

- Cymhwyso egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Codi'r flaenoriaeth a roddir i gwrdd ag anghenion;
- Sicrhau gwrandawiad i leisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r angen mwyaf;
- Cynllunio ar gyfer gwasanaethau ataliol;
- Cyfuno diogelwch i blant a phobl ifanc;
- Cynnwys gwasanaethau cyffredinol;
- Integreiddio trwy gomisiynu ar y cyd a chyllid cronnol;
- Gwerthfawrogi amrywiaeth a hybu cyfleoedd cyfartal.

Dylai pob Partneriaeth cynnal asesiad o anghenion a dynodi'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli ganddynt. Dylai'r asesiad o anghenion cydnabod anghenion arbennig plant a phobl ifanc sydd angen mwy o ofal gan ystod o bobl broffesiynol os ydynt i gyflawni eu potensial yn llawn. Wrth gynllunio gwasanaethau i gyfarfod â 7 Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhaid i Bartneriaethau ystyried amgylchiadau arbennig rhai plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu yn debyg i droseddu a phlant a phobl ifanc o deuluoedd troseddwyr. Rhaid i Bartneriaethau weithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol ieuenctid i gefnogi teuluoedd sydd mewn perygl o droseddu neu ail-droseddu.

Adran 26 – Rhaid i awdurdodau lleol paratoi cynllun sy'n dangos sut y byddant yn gweithio gyda'u partneriaid i gyflwyno 7 Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad i bob plentyn a phobl ifanc. Dylai'r cynllun hwn ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau blaenoriaethol, yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu ail-droseddu a phlant a phobl ifanc teuluoedd troseddwyr.

Adran 28 – Trefniadau i ddiogelu a hybu llesiant

Mae Adran 28 yn mynnu bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gwneud trefniadau i sicrhau bod eu dyletswyddau yn cael eu gweithredu o ystyried yr angen i ddiogelu a hybu llesiant plant a phobl ifanc.

Yr asiantaethau partneriaeth hyn yw:

- Awdurdodau'r Heddlu a Phrif Swyddogion yr Heddlu;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Timau Troseddu Ieuenctid;
- Llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi diogel yng Nghymru (neu'r Cyfarwyddwr mewn achos o garchar sydd wedi ei gontractio allan neu STC);
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- Awdurdod Heddlu Cludiant Prydeinig
- Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid (dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000).

Rhaid i'r asiantaethau hyn paratoi:

- Datganiad clir o gyfrifoldebau'r asiantaethau tuag at blant, i fod ar gael i bob gweithiwr;
- Llinell gyswllt clir o atebolrwydd o fewn y mudiad ar gyfer gweithio ar ddiogelwch a llesiant plant;
- Datblygiad o'r gwasanaeth sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu llesiant;
- Hyfforddiant ar ddiogelu a hybu llesiant plant a recriwtio diogel i bob gweithiwr sy'n gweithio gyda neu (yn dibynnu ar brif swyddogaeth yr asiantaeth) mewn cysylltiad â phlant a'u teuluoedd;
- Gwaith rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hybu llesiant plant ac i rannu gwybodaeth.

Fe welir sut y dylai'r gwahanol asiantaethau, yn cynnwys asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol, gweithredu'r trefniadau hyn yng Nghanllawiau'r Cynulliad *'Diogelu Plant: Cydweithio Dan y Ddeddf Plant'* (2004).

Adran 28 – Rhaid i bob asiantaeth, wrth wneud ei gwaith, ystyried anghenion plant a phobl ifanc a dulliau i sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc. Dylai asiantaethau dynodi dulliau o weithio sy'n hyrwyddo diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc a sicrhau bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Adran 31-34 – Byrddau Lleol Diogelu Plant

Mae'r Ddeddf wedi amnewid Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant (P'auAAP) gyda Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP). Mae'r Ddeddf yn enwi'r partneriaid statudol canlynol i awdurdodau lleol a rhaid iddynt gael eu cynrychioli ar bob BLlDP.

Y partneriaid statudol yw:

- Awdurdodau'r Heddlu a Phrif Swyddogion yr Heddlu;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Timau Troseddu Ieuenctid;
- Llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi diogel yng Nghymru (neu'r Cyfarwyddwr mewn achos o garchar sydd wedi ei gontractio allan neu STC);
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

Nod y BLlDP yw:

- Cydlynu'r hyn a wneir gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant yn ardal yr awdurdod a sefydlodd y Bwrdd; a

- Sicrhau bod yr hyn a wneir gan bob unigolyn o'r fath i'r amcanion hyn yn effeithiol.

Mae cwmpas cyfrifoldebau BLlDP yn ymestyn i bob plentyn a phobl ifanc ond maent yn arbennig o briodol i blant mewn angen ac i blant mewn perygl arbennig. Er enghraifft, plant sy'n cael eu cam-drin neu blant gyda rhieni efo gallu rhieniol canolig.

Adrannau 31-34 – Nod y BLlDP yw sicrhau bod pob asiantaeth yn cydnabod eu cyfrifoldebau ac yn cydweithio mewn dull effeithiol i amddiffyn plant a phobl ifanc ac i hybu eu llesiant. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth.

Ymestyn Hawl: cefnogaeth i'r rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed yng Nghymru

Mae Ymestyn hawl: cefnogaeth i'r rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed yng Nghymru (2002) yn gosod allan yr angen am ffocws mwy grymus ar anghenion a photensial pobl ifanc wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau dan Adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau i gefnogi ieuenctid, er mwyn annog, galluogi neu i gynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol) i:

- gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant
- fanteisio ar gyfleoedd am gyflogaeth
- gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mae'r Canllawiau yn cyflwyno'r cysyniad o 'Hawl Cyffredinol'. Dyma gyfres o ddeg o hawliau ar gyfer pob person ifanc yng Nghymru a fwriedir i wneud y mwyaf o botensial pobl ifanc ac i greu effaith cadarnhaol ar ganlyniadau i bobl ifanc. Mae pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol i agwedd gwahanol o fywydau pobl ifanc. Mae canllawiau Cynllunio CYPP yn cyfeirio'n fanwl at y deg hawl, gan ddisgrifio cyfraniadau'r gwasanaethau cefnogi ieuenctid a sut y maent yn briodol yn adrannau perthnasol y Cynllun. Mae hefyd yn cysylltu'r hawliau â phob nod craidd perthnasol.

Cyhoeddwyd '*Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Cyfan*' (STICC) yn 2004 gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r strategaeth yn cefnogi'r egwyddor bod 'atal yn well na gwella'. Mae hyn yn canfod mai'r ffordd orau i leihau troseddu gan yr ifanc yw stopio pobl ifanc rhag dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi'r egwyddor o ymestyn 'Hawliau Cyffredinol' i bob plentyn a phobl ifanc. Yn y modd yma, bydd cefnogi canlyniadau da i blant a phobl ifanc yn lleihau troseddu ac yn cadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Ar yr un pryd, bydd cyflwyno 'hawliau cyffredinol' i bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid – yn cynnwys y rhai hynny sydd yn y ddalfa y tu allan i Gymru – yn lleihau ail-droseddu.

Crynodeb

Mae'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad a roddir yn y ddogfen hon yn berthnasol i bobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a theuluoedd. Mae'n briodol hefyd i bobl sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o'u gwaith.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon fel rhan o waith aml asiantaethol Grŵp Llwybr i Blant a Theuluoedd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (Cymru). Mae'r Grŵp yn symud ymlaen gyda gwaith Llwybr i Blant a Theuluoedd ar Strategaeth NOMS (Cymru) i Leihau Ail-Droseddu (2006).

Mae'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad a roddir yn y ddogfen hon yn dangos sut y dylai asiantaethau cydweithio i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, hyrwyddo eu llesiant, cyflawni eu potensial a sicrhau gwell canlyniadau i bob plentyn a phobl ifanc.

Mae angen i asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a'u staff fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad a roddir yn y ddogfen hon. Wrth gyflawni eu dyletswyddau a chyflwyno eu gwasanaethau dylai asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a'u staff cael y wybodaeth am y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth a'r arweiniad.

Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, hyrwyddo eu llesiant a gweithio tuag at ganlyniadau gwell yn lleihau'r perygl o droseddu neu ail-droseddu. Rhan bwysig o sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc yw rhoi cefnogaeth i deuluoedd mewn amgylchiadau anodd, yn cynnwys teuluoedd a effeithiwyd gan ymddygiad troseddol. Ffactor bwysig yn lleihau ail-droseddu yw cynnal a chadw cysylltiadau teuluol a chael teulu cefnogol.

Mae copïau o '*Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau: Canllawiau*' ar '*Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio*' ar gael ar Wefan Llywodraeth y Cynulliad ar:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=cy